OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1910 (Cy. 281)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym* | *19 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Hydref 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 19 Hydref 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin a Hwlffordd yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Redstone Cross, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2005**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre, Sir Benfro) (Cyfyngiad Cyflymder 40 mya) 1999**(4)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Hydref 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2005/3369 (Cy. 266).
**(4)** O.S. 1999/465.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 211 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sy'n arwain at Bont y Fenni.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Penblewin hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 258 o fetrau i'r gorllewin o Bont Deeplake, i'r dwyrain o Hwlffordd hyd at bwynt 713 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlffordd.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at bwynt 211 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd yn Llanddewi Felffre sy'n ymestyn o bwynt 379 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 hyd at bwynt 475 o fetrau i'r gorllewin o ffordd Dosbarth III yr C3205.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen hyd at ochr orllewinol y gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 713 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Scotchwell hyd at ei chyffordd â Chylchfan Salutation Square, Hwlffordd, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y ddwy gylchfan.